

Llwyfannu 'llên y gwter'

Mae cyfrol o straeon byrion drwg enwog am y Gymru wledig wedi eu haddasu yn ddrama...

Mae can mlynedd ers i gyfrol o straeon byrion o'r enw **My People: Stories of the Peasantry of West Wales** gan Caradoc Evans, gythruddo'r byd llenyddol a Chymry parchus, crefyddol y cyfnod. Yn ôl **The Western Mail**, roedd y gyfrol yn 'the literature of the sewer' a chafodd yr awdur ei alw yn fradwr cenedlaethol, yn 'pervert' a 'The best hated man in Wales.'

Bydd cyfle i weld addasiad o'r straeon 'gwarthus' hyn ar lwyfan Theatr Clwyd dros y pythefnos nesaf, ac mae Steffan Donnelly, y gŵr ifanc a gafodd y syniad a'r dasg o'u haddasu ar gyfer y llwyfan, yn edrych ymlaen at weld beth fydd ymateb cynulleidfia 2015.

Un o Lanfairpwll, Ynys Môn yw Steffan Donnelly, cyn-ddisgybl yn Ysgol David Hughes ond ar ôl graddio o'r Guild Hall yn 2012, penderfynodd aros yn Llundain, lle mae'n actor ac yn gyfarwyddwr theatr. Ei swydd gyntaf ar ôl graddio oedd yn **The Winslow Boy** yn Theatr Clwyd, lle'r oedd eisoes yn adnabod Tim Baker drwy waith Theatr Genedlaethol Ieuencid Cymru.

Wedi i Gwmni Invertigo - cwmni theatr Steffan Donnelly a thri o'i gyfeillion - fynd â'u cynhyrchiad o **Y Tŵr** i Theatr Clwyd, cafodd Tim Baker a Steffan Donnelly sgwrs am y posibilrwydd o wneud cyd-gynhyrchiad.

Un o'r syniadau roedd Steffan Donnelly wedi ei gadw mewn drôr ers tair i bedair blynedd oedd addasiad o **My People**.

"Awdur o Iwerddon oedd yn digwydd siarad am James Joyce efo fi, pan ddeudodd o: 'Mae gynnoch chi eich James Joyce eich hunain yng Nghymru, chi'n gwybod.'" Aeth ati'n syth i ddarlennu gwaith Caradoc Evans, a dechrau addasu'r straeon.

Ffawd oedd ei bod bron yn union gan mlynedd ers cyhoeddi **My People** pan gafodd y sgwrs gyda Tim Baker. Oni fyddai'r Cymry'n gallu edrych ar y gwaith mewn ffordd fwy aeddfed bellach?

"Ydan ni wedi newid digon fel cymdeithas? Mi fasech chi'n meddwl, do, andros o lot," meddai

Steffan Donnelly. "Ond ar ôl gweld y cynhyrchiad yma, bydd pobol yn gofyn: 'ydan ni?' Mae 'na lot o'r ffordd yna o feddwl yn dal o gwmpas rwan. Nid yn unig yng Nghymru chwaith... mi allaf ad am unrhyw grefydd, unrhyw gymuned; yn y bôn, mae o am ddyngoliaeth, y ffordd rydan ni'n cyd-fyw."

Mae'n cyfeirio at un o'r straeon enwocaf: am Nanni, yr hen ddynes dlawd yn diodde'n enbyd er mwyn prynu Beibl.

"Mae'n stori mor drist - a chyhyrog hefyd. Ydi, mae'n ych-a-fi, efo elfen o'r *supernatural* amdani, a pheth o'r **Mabinogi** a Dickens a Zola - ac **Under Milk Wood** yn hwyrach.

"Ond mae Caradoc Evans yn gofyn pam bod hyn wedi digwydd i Nanni. Pwy sydd ar fai?" Mae'n cyfaddef fod Caradoc Evans yn awdur drygionus iawn, ac yn sicr yn gor-ddweud, "ond mae o'n eychwyn yn llawn gwirionedd, llawn gonestrwydd".

Roedd Caradoc Evans yn byw yn yr un pentref â Moelona, awdures **Teulu Bach Nantoeir**, ac yn yr un dosbarth yn yr ysgol, ond "dydi o ddim yn rhamaentydd o gwbl", meddai Steffan Donnelly. Pan aeth â'r dylunudd Cécile Trémolières, i bentref Rhydlewis i wneud ychydig o ymchwil, roedd plac glas amlwg ar hen gartref Moelona - a dim byd ar gartref Caradoc Evans.

"Roedd o fel tasa fo erioed wedi byw, ond mi fysa wedi bod yn arwr mewn unrhyw le arall, ar unrhyw gyfnod arall!"

Cafodd llyfrau Caradoc Evans eu llosgi yng Nghymru, ond yn Llundain roedd yn uchel ei barch gan y beirniadau ac yn cael ei gymharu â mawrion fel Zola, Gorky a Joyce. Yn ddiweddarach, cyfeiriodd Dylan Thomas at "yr enwog Caradoc Evans" fel dylanwad cryf ar ei waith.

"Ond rydan ni wedi rhoi Caradoc yn y twll tywylla' ym mhen draw cwpwrdd llawn pryfaid cop, sy'n gwyilydd o beth," meddai Steffan Donnelly.

"Dw i'n falch bod ein cynhyrchiad ni'n gallu sbio arno mewn ffordd fwy ystyriol."

DENU POBOL IAU I'R THEATR

Mae Steffan Donnelly yn credu y gall y cynhyrchiad hwn denu pobol iau i'r theatr.

"Mae'n adasiad reit radical, yn gorfforol ofnadwy, efo tipyn o ymladd, yn enwedig yr olygfa olaf, sy'n llawn cyffro - ac mae'r cast yn wych!"


"Mae'n a chwech ohonyn nhw'n chwarae rhyw 50 cymeriad. Ac er mai capel ydi'r set, mae o fel cae chwarae efo lot o lefelau a drysau a phethau yn dod o'r awyr a'r llawr, bob man. Mae o'n boncyrs."

Mae Steffan Donnelly ac Aled Pedrick, ei gyd-gyfarwyddwr, yn teimlo'n "hynod o gyffrous am hyn; mae gynnwng ni'r teimlad ein bod ni'n creu rhywbeth anferthol. Dw i methu disgwyl i weld be wneith y gynulleidfa ohono fol!"

BETHAN GWANAS

THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG - THEATR EMLYN WILLIAMS NOS IAU 5 - NOS SADWRN 21 TACHWEDD 2015 7.45PM, PRAWN SADWRN 2.45PM SWYDDFA DOCYNNAU 01352 701521 ARCHEBU AR-LEIN WWW.THEATRCLWYD.COM

Yr actorion yw: **Hugh Thomas, Valmai Jones, Michael Geary, Rhys Meredith, Sion Alun Davies a Roanna Lewis.**



CARADOC EVANS


Fe gafodd ei eni yn 1878 yn Sir Gaerfyrddin. Treuliodd ei blyntydod yn Rhydlewis ble cafodd ei addysg ac wedyn aeth yn brentis mewn siop ddillad. Am ddeuddeg mlynedd bu'n gynorthwydd siop yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Llundain, gan fynd i ddosbarthiadau yn Toynebee Hall a dod yn awdur medrus. **My People** oedd ei lyfr cyntaf. Aeth ymlaen i ysgrifennu pum casgliad o straeon byrion, pum nofel a drama, **Taffy**, yn 1923. Yn 1934, dychwelodd i Gymru i redeg theatr yn Aberystwyth. Bu farw yn 1945.



Roanna Lewis a Sion Alun Davies



Sion Alun Davies, Aled Pedrick (Cyd-gyfarwyddwr)



Steffan Donnelly (Cyd-gyfarwyddwr)



Michael Geary, Sion Alun Davies



Roanna Lewis

"...rydan ni wedi rhoi Caradoc yn y twll tywylla' ym mhen draw cwpwrdd llawn pryfaid cop, sy'n gwyilydd o beth,"

CARADOC EVANS "BRON YN FFEMINIST"



Mae Valmai Jones yn cofio darllen **My People** yn yr ysgol, a bryd hynny, roedd y straeon fel ffuglen iddi.

"Ond erbyn rwan, mae rhywun yn sylweddoli bod 'na dlodi gwledig mawr bryd hynny, a rwan... efo'r fforduriaid - wel, sa'm lot wedi newid," meddai.

"Mae o'n stwff cryf iawn, iawn. Y stori wnaeth sticio yn yr ysgol oedd un Nanni, a fi sy'n actio honno. Dyna i chi stori digon a chodi gwallt eich pen... Patriarchaidd iawn oedd y gymuned, ac ysglyfaeth ydi'r merched bron i gyd. Mae be' sy'n digwydd iddyn nhw'n doralonnus."

"Mae un cymeriad wedi cael lot o blant ac mae'i gŵr hi wedi'i chloi hi yn y llofft stabal ac wedi ffeindio dynes arall i gymryd ei lle hi, am ei fod o'n dweud ei bod hi wedi gwallgofi. Ond mae'n siwr mai *Post natal depression* oedd o ynde?"

"Mae 'na un arall wedi cael llwyth o *miscarriages*, a'r capel yn llym ar hynny, a nes ymlaen mae ei dau fab yn crogi eu hunain - a'r capel yn dweud: 'Wedi ia, be' ydach chi'n disgwyl o ddynes oedd yn methu cario plant...'"

"Mae o flaen ei amser yn y ffordd mae'n portreadu merched sy'n diodde' - bron yn ffeminist a dweud y gwir."

Pan ddechreuodd y cast ddarlennu drwy'r sgript am y tro cyntaf, codwyd ambell ael; tybed a oedd gormod o ddiodef yma? "Ond ar ôl dechrau ymarfer, chi'n gweld yr hwmor yn datblygu hefyd," meddai Valmai Jones.

Cymerodd amser i bawb ddod i arfer gyda'r ffordd mae Caradoc Evans wedi ysgrifennu'r iaith Saesneg, "achos mae o fel 'sa fo wedi mynd ati i greu iaith sy'n cyfleu siarad Cymraeg. Mae'n teimlo fel mai fo fu'n gyfrifol am yr holl '*indeed to goodness*' a '*look you*' rydan ni wedi'i ddiode' ar hyd y blynyddoedd!"

Mae Valmai Jones yn amlwg wedi mwynhau'r cyfnod ymarfer yn arw ac yn cyfaddef ei bod wedi cynhyrfu, braidd.

"Dyma'r agosaf at *ensemble* pur dw i wedi ei wneud ers talwn iawn. Mae o dipyn bach fel bod mewn cerddoriaf: pawb â'i ran, ac mae o i gyd yn gweu efo'i gilydd."

"Mae hon yn ddrama lle mae gen i wirioneddol ddi-ddordeb yn be' fydd y gynulleidfa yn ei feddwl, a dw i'n meddwl y gwnetho amrywio. Mae'n agwedd i wedi newid a thyfu efo; rydan ni wedi dod i weld yn well be' oedd Caradoc Evans yn trio'i wneud: tynnu sylw at ragrith y capeli a'r tlodi mawr a'r cam roedd pobol yn ei gael."

"Mae o'n llym iawn, ond mae o'n dal wedi ei alw o'n **My People** tydi?"